# Archifdy Sir Gâr

# **Cyfarwyddyd Llungopïo**

# 2025 -2026

Mae Archifau Sir Gaerfyrddin yn casglu ac yn cadw cofnodiadau o arwyddocâd hanesyddol fel y byddant ar gael ar gyfer ymchwil yn awr ac yn y dyfodol. Tra y gellir llungopïo nifer fawr o'n cofnodiadau (yn amodol ar gyfyngiadau hawlfraint) nid yw hyn yn bosibl ar rai achlysuron oherwydd y gall y broses lungopïo wneud difrod i'r dogfennau (neu fod hynny yn erbyn dymuniadau'r person a'u rhoddodd i'r archifdy). Felly, mae cyfyngiad ar lun-gopïo dogfennau gwreiddiol.

Fel rheol gyffredinol, mae'r dogfennau **NA ELLIR** eu llungopïo'n cynnwys:

- **Dogfennau bregus**
- **Cofrestri plwyf**
- **Ffotograffau gwreiddiol**
- **Eitemau'n cynnwys inc, lliw neu baent**
- **Unrhyw sêl gŵyr**
- **Pilennau lluosog**
- **Dogfennau wedi'u rhowlio'n dynn**
- **Cyfrolau wedi'u rhwymo**
- **Dogfennau mawr sy'n ymestyn dros ymyl y llungopïwr**

Os byddwch yn methu cymryd llungopi nid yw popeth ar ben. Fe allwch ystyried tresio (byddwn yn cyflenwi gorchudd plastig) neu ddefnyddio ffotograffiaeth heb fflach fel ateb arall. Fe allwch ddefnyddio eich camera digidol eich hun i'r pwrpas hwn. Mae trwydded dydd yn costio £8.40, trwydded wythnos - £24.25, a trwydded blynyddol yn costio £120.65.

**Diolch yn fawr**

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2026